HM Government

Llywodraeth EF

# Canllawiau'r Llywodraeth ar gyfer Troseddau Meddu ar Gyllyll gan Blant

## Cymru a Lloegr

**Chwefror 2026**

OGL

© Hawlfraint y Goron 2026 Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn Public.Enquiries@homeoffice.gov.uk neu cysylltwch â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder

Y Swyddfa Gartref
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF

Neu

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ

# Cynnwys

**Crynodeb gweithredol ....... 4**

**Ynglŷn â'r canllawiau hyn....... 7**

**Trosolwg o'r broses ....... 8**

**Cam un: Yr heddlu'n rhybuddio'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid am bob trosedd meddu ar gyllell plentyn ....... 10**

Asesiad risg o'r plentyn wrth rybuddio'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid 10

**Cam dau: Barn gychwynnol ac atgyfeiriadau'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ....... 11**

Diogelu ....... 12

Strwythurau atgyfeirio ac asesu cyflym a thrylwyr ....... 12

Atgyfeiriadau amserol ....... 13

**Cam tri: Canlyniadau priodol ....... 14**

Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys....... 14

Erlyniad Gohiriedig ....... 16

**Cam pedwar: Ymyriadau priodol ....... 17**

Cynnwys asiantaethau eraill ....... 18

**Cam pump: Craffu ....... 19**

Paneli gwneud penderfyniadau ....... 19

**Esboniadau terminoleg....... 21**

# Crynodeb gweithredol

Cyhoeddir y canllawiau hyn ar y cyd gan y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gefnogi'r heddlu, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid ac asiantaethau eraill wrth ddelio â phlant sy'n cael eu dal â chyllell yn eu meddiant.

Mae'r Llywodraeth hon wedi gosod targed uchelgeisiol ond hanfodol: haneru troseddau cyllyll dros y degawd hwn. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2024, pan ddaethom i rym, roedd 237 o lofruddiaethau yn gysylltiedig â chyllyll, i fyny o 203 yn 2013/14. Roedd dros 50,000 o droseddau cyllyll i gyd, ac roedd troseddau cyllyll wedi codi 4% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae pob anaf, pob bywyd a gollir, yn un gormod.

Rydym eisoes yn gwneud cynnydd pendant, ers dechrau'r Senedd hon:

- Mae troseddau cyllyll wedi gostwng 8%, sy'n golygu 4,229 yn llai o droseddau.
- Mae llofruddiaethau cyllyll wedi gostwng 27%.
- Mae derbyniadau i'r ysbyty am drywanu wedi gostwng 11%.
- Rydym wedi gwahardd arfau peryglus fel cleddyfau ninja a machetes arddull sombi.
- Ac rydym wedi tynnu bron i 60,000 o gyllyll oddi ar ein strydoedd.

Ond rhaid i ni fynd ymhellach. Ar draws pob rhan o'r system, byddwn yn parhau i hogi ein ffocws: nodi'r rhai sydd fwyaf mewn perygl, ymyrryd yn gynharach, troi arloesi yn arfer prif ffrwd, sicrhau bod ein deddfwriaeth yn effeithiol, cymryd camau gorfodi llymach, a dwyn pob sefydliad i gyfrif am gyflawni'r gostyngiadau mewn trais y mae ein cymunedau'n eu haeddu.

Mae'n drosedd meddu ar gyllell yn gyhoeddus neu mewn ysgol neu safle addysg bellach heb reswm da nac awdurdod cyfreithlon. Ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid yw meddu ar gyllell wedi cael ei drin gyda'r difrifoldeb na'r brys sydd ei angen. Am gyfnod rhy hir, pan yw plentyn wedi cael ei ganfod yn cario cyllell, nid oes canlyniadau cyflym na digon sicr wedi bod. Mae'r system wedi bod yn rhy araf i ymateb, yn rhy ddi-gyswllt wrth ddelio ag arwyddion rhybuddio, ac yn rhy ddibynnol ar ymyriadau nad ydynt yn cyd-fynd â'r sail dystiolaeth ar arfer gorau ar gyfer lleihau aildroseddu. Rydym yn newid hynny.

Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i haneru troseddau cyllyll dros y degawd nesaf, ac rydym eisoes yn gwneud cynnydd clir. Rydym yn gweithredu'n gyflym ac yn bendant i ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl i'w hatal rhag cael eu denu i droseddau cyllyll ac rydym eisoes wedi cyflwyno cyfres o fesurau newydd llym i fynd i'r afael ag argaeledd a hygyrchedd cyllyll. Fodd bynnag, rhaid i ni hefyd sicrhau bod camau cadarn bob amser i ddelio â meddiant cyllyll.

Mae lleihau troseddau cyllyll yn gofyn am newid sylweddol yn y ffordd y mae'r system cyfiawnder troseddol yn ymateb pan geir plentyn ym meddiant cyllell.

Felly, mae'r canllawiau hyn yn gosod disgwyliad y dylai'r ymateb i feddu ar gyllell fod yn Gyflym, yn Gadarn, yn Seiliedig ar Dystiolaeth ac yn Drwyadl –

**Cyflym**

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd ymateb i drosedd meddu ar gyllell o fewn y 'foment hygyrch, addysgiadwy'. Dylai swyddogion heddlu rybuddio'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid am droseddau meddu ar gyllell o fewn un diwrnod gwaith neu cyn gynted â phosibl. Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid gynnal asesiad trylwyr o'r plentyn fel blaenoriaeth. Dylid gwneud hyn bob amser wrth hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac ystyried pryderon diogelu ar yr un pryd. Dylai Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid ddechrau gweithio gyda phlentyn o fewn pedair wythnos ar ôl atgyfeirio.

**Cadarn**

Dylid ymateb i feddiant cyllell gyda chynllun ymyrraeth orfodol. Mae hyn yn sicrhau diogelwch y cyhoedd. Dim ond gyda chyhuddiad, Rhybuddiad Amodol Ieuenctid neu Erlyniad Gohiriedig y dylid ymdrin â throseddau meddu ar gyllell. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys lle mae cyllell yn gysylltiedig yn arwain at Rybudd Amodol Ieuenctid. Rhaid i'r penderfyniad ynghylch pa ganlyniad sydd fwyaf priodol fod yn seiliedig ar ystyried cyd-destun llawn y drosedd, gan gynnwys oedran a lefel aeddfedrwydd y plentyn ac maent fel a ganlyn:

- Gallai cyhuddiad fod yn briodol lle mae difrifoldeb y drosedd neu fanylion yr achos yn golygu y dylid mynd ar drywydd cyhuddiad yn unol â chanllawiau presennol.
- Gallai Rhybuddiad Amodol Ieuenctid fod yn briodol ac yn gymesur fel Datrysiad statudol y Tu Allan i'r Llys lle byddai'r plentyn yn elwa o gefnogaeth strwythuredig sydd â'r nod o fynd i'r afael ag achosion sylfaenol ei ymddygiad troseddol.
- Gallai Erlyniad Gohiriedig fod yn briodol mewn achosion dethol lle nad yw'n gymesur troseddoli plentyn am feddu ar gyllell a byddai'r plentyn yn elwa o gefnogaeth strwythuredig sydd â'r nod o fynd i'r afael ag achosion sylfaenol ei ymddygiad troseddol ac osgoi erlyniad ar ôl cwblhau.

Mae'r Llywodraeth yn disgwyl i bob heddlu sicrhau bod Erlyniad Gohiriedig ar gael ar gyfer troseddau meddu ar gyllell yn erbyn plant er mwyn sicrhau bod canlyniad nad yw'n droseddol ar gael ar gyfer achosion dethol lle nad yw troseddoli o bosibl yn briodol. Dylai hyn o hyd gynnwys atgyfeiriad at Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac mae'n dal i fod yn ofynnol i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid gynnal yr ymyriadau gyda'r plentyn ond osgoi troseddoli plant yn ormodol mewn amgylchiadau lle nad yw'n briodol gwneud hynny.

**Seiliedig ar dystiolaeth**

Rhaid bod tystiolaeth dda ar gyfer ymyriadau i leihau aildroseddu. Dylid cynllunio ymyriadau ar sail asesiad cyfannol a thrylwyr o'r plentyn a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol eu hymddygiad troseddol. Dylai pob ymyriad fod yr un mor gadarn ac o ansawdd uchel, waeth beth fo'r canlyniad a ddarperir. Ni ddylid

defnyddio ymyriadau sydd â thystiolaeth wan neu ddim tystiolaeth i'w cefnogi - fel addysg neu gyrsiau ymwybyddiaeth am droseddau cyllyll.

**Trylwyr**

Dylid monitro cydymffurfiaeth ag ymyriadau. Pan fydd y plentyn yn torri amodau a osodwyd yn eu cynllun ymyrryd, dylid cymryd camau - dylai'r heddlu a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid fod yn ymwybodol o unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth, a chymryd camau priodol i sicrhau diogelwch y cyhoedd a boddhad dioddefwyr ac atal aildroseddu. Mae hyn yn cynnwys cyhuddo'r plentyn o'r drosedd wreiddiol.

# Ynglŷn â'r canllawiau hyn

Mae'r canllawiau hyn yn nodi disgwyliadau'r Llywodraeth y bydd pob plentyn sy'n torri'r gyfraith drwy gario cyllell yn derbyn cefnogaeth wedi'i theilwra ac ymyriadau o ansawdd uchel yn gyflym gan Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Mae hyn yn berthnasol i bob heddlu a Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ledled Cymru a Lloegr.

Mae'n cydnabod y cyfrifoldebau penodol sydd gan Lywodraeth Cymru a heddluoedd Cymru o dan y setliad datganoli presennol ac yn ymgorffori Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Mae'r canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth ychwanegol am achosion lle mae Datrysiad y Tu Allan i'r Llys yn briodol. Lle mae'n briodol cyhuddo[1], dylid parhau i ddilyn meini prawf a phrosesau sefydledig presennol.

Mae'r ddogfen hon yn darparu cyngor ar y Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys a ystyrir yn briodol mewn ymateb i droseddau meddu ar gyllell yn unig gan blant, a sut i sicrhau bod ymyrraeth orfodol gadarn ac ystyrlon yn cael ei chyflwyno gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ym mhob achos Rhybuddiad Amodol Ieuenctid ac Erlyniad Gohiriedig lle bo'n briodol.

Drwy gydol y canllawiau hyn, defnyddir 'rhaid', 'dylai' a 'gallai'. Noder:

- Mae **'Rhaid'** yn cyfeirio at lle mae dyletswydd gyfreithiol lle mae'n rhaid cyflawni rhywbeth.
- Mae **'Dylai'** yn cyfeirio at ddisgwyliad clir gan y Llywodraeth y bydd gweithred benodol yn cael ei chyflawni. Er nad yw'n ddyletswydd statudol, mae defnyddio 'dylai' yn arwydd bod y weithred yn cael ei hystyried yn hanfodol i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd yn y canllawiau a sicrhau ymateb priodol i droseddau meddu ar gyllell yn gan blant.
- Mae **'Gallai'** yn cyfeirio at lle mae cyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw'n arfer gorau ond nid yn arferol eto.

Mae'r defnydd o'r gair 'cyllell' drwy gydol y canllaw hwn yn berthnasol i unrhyw erthygl sydd â llafn neu flaen ac eithrio cyllell boced plygadwy nad yw'n cloi lle nad yw ymyl torri ei llafn yn fwy na 3 modfedd a llafnau rasel wedi'u hamgáu'n barhaol mewn cetris neu orchudd lle mae llai na 2 filimetr o'r llafn yn agored.[2]

---

[1] Canllaw ar Rybuddio a Chyhuddo Troseddau Cyllyll v5.0

[2] Gorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) (Esemptiad)1996

# Trosolwg o'r broses

### Cam 1: Yr heddlu i rybuddio'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

1. Mae'n drosedd meddu ar gyllell mewn man cyhoeddus neu ar safle ysgol neu addysg bellach heb reswm da nac awdurdod cyfreithlon. Pan geir bod plant yn meddu ar gyllell yn yr amgylchiadau hyn, mae'n hanfodol cymryd camau prydlon a phriodol i sicrhau bod yr unigolyn yn derbyn y gefnogaeth a'r canllawiau angenrheidiol i atal niwed neu droseddu pellach.

2. Dylai'r heddlu rybuddio'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid am bob trosedd meddu ar gyllell. Dylid gwneud hyn o fewn un diwrnod gwaith. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl i bob penderfyniad ar droseddau meddu ar gyllell gael ei wneud ar ôl ymgynghori rhwng yr heddlu a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

3. Mewn achosion lle ceir bod plentyn yn meddu ar gyllell mewn safle ysgol neu addysg bellach, dylid dilyn y canllawiau presennol[3,4].Rhaid trosglwyddo unrhyw gyllell a geir, a thystiolaeth o drosedd a amheuir, i'r heddlu cyn gynted â phosibl.

### Cam 2: Barn gychwynnol ac atgyfeiriadau'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

4. Rhaid i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid farnu anghenion y plentyn fesul achos, gan gynnwys ystyried eu hamgylchiadau, risgiau ac unrhyw bryderon diogelu (gan gynnwys niwed all-deuluol fel masnachu pobl, camfanteisio troseddol a thrais difrifol).

5. Ar ôl i'r heddlu gwblhau'r ymchwiliad, dylai'r farn gychwynnol ar anghenion y plentyn gael ei llywio gan yr holl wybodaeth berthnasol sydd ar gael i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, gan gynnwys gwybodaeth sy'n eiddo i asiantaethau partner perthnasol, e.e. Gofal Cymdeithasol Plant, Addysg ac Iechyd. Mae canllawiau statudol amlasiantaethol, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant, yn nodi'r hyn y mae angen i weithwyr proffesiynol a sefydliadau yn Lloegr ei wneud, yn unigol ac mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, os oes pryderon ynghylch diogelwch a lles plant a phobl ifanc.

### Cam 3: Canlyniadau Priodol

6. Lle mae'r panel gwneud penderfyniadau (a ddylai ddigwydd yn wythnosol) yn penderfynu bod Datrysiad y Tu Allan i'r Llys yn briodol a lle mae'r plentyn angen cymorth gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, rhaid i'r cymorth fod yn orfodol. Mae hyn yn golygu bod rhaid cynnig Rhybuddiad Amodol Ieuenctid i'r plentyn neu

---

[3] Chwilio, Sgrinio ac Atafaelu

[4] Cadw plant yn ddiogel mewn addysg 2024

(lle bo'n briodol), Erlyniad Gohiriedig sy'n cynnwys ymgysylltu â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a chymorth ganddo.

7. Os cynigir Rhybuddiad Amodol Ieuenctid neu Erlyniad Gohiriedig i'r plentyn ond ei fod yn gwrthod derbyn y datrysiad, gellir ei erlyn am y drosedd wreiddiol.

8. Yn yr achosion prin lle mae'r heddlu a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn barnu y dylai plentyn gael ei gefnogi gan asiantaeth wahanol yn unig, dylid atgyfeirio'r plentyn yn ffurfiol at yr asiantaeth hon, a dylid cau'r drosedd fel Canlyniad 20. Byddai'n briodol defnyddio Canlyniad 20 lle credir nad oes unrhyw risg bosibl i ddiogelwch y cyhoedd. Dyma'r unig amgylchiadau lle nad oes angen asesiad pellach gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Mae cau'r drosedd fel Canlyniad 20 yn adlewyrchu bod camau pellach wedi'u cymryd gan gorff neu asiantaeth arall.

9. Fodd bynnag, lle mae trosedd meddu ar gyllell a risg i ddiogelwch y cyhoedd, dylid cynnig cynllun gorfodol gyda chefnogaeth gan asiantaethau eraill a sicrheir ar yr un pryd. Dim ond pan fydd asiantaeth arall yn cefnogi'r plentyn ar ei ben ei hun y dylid defnyddio Canlyniad 20 ar gyfer troseddau meddu ar gyllell.

### Cam 4: Ymyriadau Priodol

10. Boed yn rhan o ddedfryd neu'n Benderfyniad y Tu Allan i'r Llys, yr arfer gorau yw dechrau ymyriadau cyn gynted â phosibl ar ôl i'r gyllell gael ei darganfod a rhybuddio'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid am y drosedd.

11. Dylai pob Penderfyniad Allan o'r Llys a gyhoeddir ar gyfer troseddau meddu ar gyllell gynnwys cynllun gorfodol. Dylai ymyriadau o fewn y cynllun ddechrau cyn gynted â phosibl ar ôl i'r heddlu ddod o hyd i blentyn sydd â chyllell yn ei feddiant. Dylai'r gefnogaeth a'r ymyriadau a roddir i'r plentyn fod yn seiliedig ar dystiolaeth bob amser er mwyn atal aildroseddu.

### Cam 5: Craffu

12. Dylid defnyddio paneli craffu sydd eisoes wedi'u sefydlu ym mhob ardal heddlu i ystyried priodoldeb y penderfyniad Datrysiad y Tu Allan i'r Llys a bod y canlyniadau cywir yn cael eu cyhoeddi.

13. Dylai Byrddau Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid sicrhau goruchwyliaeth o ansawdd ac effeithiolrwydd yr ymyriadau a ddarperir. Dylent ystyried a yw cynlluniau ymyrryd yn cyflawni effeithiau ystyrlon, cadarnhaol i blant ac yn sicrhau diogelwch i ddioddefwyr posibl a'r gymuned.

14. Drwy adolygu arferion sydd ar gael yn lleol a chanlyniadau, mae'r paneli hyn yn chwarae rhan allweddol wrth nodi meysydd i'w datblygu a gyrru gwelliant parhaus.

# Cam un: Yr heddlu’n rhybuddio’r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid am bob trosedd meddu ar gyllell gan blentyn

15. Dylai'r heddlu rybuddio'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid am y drosedd meddu ar gyllell cyn gynted â phosibl ar ôl rhyngweithio â'r plentyn – mae'r Llywodraeth yn ystyried mai un diwrnod gwaith yw'r amser mwyaf y dylai hyn ei gymryd er mwyn galluogi gwneud penderfyniadau cyflym.

### Asesiad risg o'r plentyn wrth rybuddio'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

16. Dylai'r heddlu gwblhau atgyfeiriad diogelu gan ddefnyddio asesiadau lleol presennol trwy brosesau y cytunwyd arnynt yn lleol. Dylid cwblhau hyn cyn gynted â phosibl ar ôl i'r drosedd ddigwydd a dyma'r pwynt y dylid rhybuddio'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid am y digwyddiad er mwyn amddiffyn y plentyn ac eraill.

17. Dylai'r heddlu rannu'r holl wybodaeth berthnasol am y plentyn er mwyn galluogi'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i wneud asesiad trylwyr. Mae rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol i'w chynnwys yn yr atgyfeiriad yn cynnwys arestiadau blaenorol, unrhyw brofiadau o fod yn ddioddefwr a gwybodaeth am y teulu lle mae'n hysbys. Dylai asiantaethau eraill rannu gwybodaeth mewn dull amlasiantaeth gan gynnwys ysgolion, awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol fel y gellir gwneud asesiad cyfannol.

18. Mae'n annhebygol y dylid categoreiddio digwyddiad lle mae plentyn wedi cyflawni trosedd meddu ar gyllell fel 'risg isel' wrth ystyried yr atgyfeiriad diogelu. Dylid rhoi gwybod i asiantaethau priodol fel gwasanaethau plant mewn modd amserol drwy'r llwybrau a'r prosesau arferol. Dylai'r asesiad risg a gynhelir gan yr heddlu fod yn ddynamig a sicrhau bod yr holl asiantaethau perthnasol yn cael gwybod yn brydlon ac yn cymryd camau i ddiogelu'r rhai sydd mewn perygl, er enghraifft, lle mae pryderon ynghylch niwed all-deuluol.

19. Lle mae plentyn wedi'i ganfod yn meddu ar gyllell, dylai cronfeydd data heddlu perthnasol ac adroddiadau cudd-wybodaeth adlewyrchu hyn yn glir a chynnwys manylion am y math o gyllell, lle bo'n briodol.

# Cam dau: Dyfarniad cychwynnol ac atgyfeiriadau Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

20. Wrth wneud penderfyniad ynghylch a ddylid cyhuddo plentyn o drosedd meddu ar gyllell, dylai'r heddlu geisio barn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, ac awdurdod gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn ôl yr angen.

21. Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, bydd yr heddlu'n gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid cyhoeddi Datrysiad y Tu Allan i'r Llys. Os yw'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn barnu bod asesiad amlasiantaeth llawn yn briodol, dylid ei gynnal yn y modd arferol – asesiad cyfannol, gan gynnwys cyfweliadau â'r plentyn a'i deulu.

22. Os yw'r drosedd yn addas ar gyfer Datrysiad y Tu Allan i'r Llys, dylai'r heddlu atgyfeirio'r achos yn ffurfiol at y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Yna cyfrifoldeb yr heddlu, gan ystyried barn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, yw barnu a yw'n briodol i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ymgysylltu â'r plentyn a chynnal yr ymyriadau angenrheidiol; neu a fyddai asiantaeth arall, mewn amgylchiadau prin, yn fwy addas i gymryd cyfrifoldeb llwyr am y plentyn, fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS). Os oes gwahaniaeth mewn barn broffesiynol, dylid datrys hyn trwy brosesau presennol a llwybrau uwchgyfeirio.

23. Lle bydd Penderfyniad y Tu Allan i'r Llys yn cael ei gyhoeddi, dylai'r heddlu ddefnyddio Matrics Difrifoldeb Plant Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu[5] ac ystyried unrhyw ffactorau gwaethygol neu liniarol ac ymgynghori â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i benderfynu a yw Rhybuddiad Amodol Ieuenctid neu Erlyniad Gohiriedig yn fwyaf priodol.

24. Mae paneli gwneud penderfyniadau presennol yn dod â phartneriaid allweddol ynghyd i benderfynu ar y canlyniad mwyaf priodol. O leiaf, dylai'r paneli gynnwys yr heddlu, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, iechyd, gofal cymdeithasol plant ac addysg. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am baneli gwneud penderfyniadau yng Nghanllawiau Rheoli Achosion y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.[6]

[5] Matrics Difrifoldeb Plant2.3

[6] Canllawiau rheoli achosion – Canllawiau - GOV.UK

## Diogelu

25. Mae gan bob sefydliad ac asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant gyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn, fel y nodir yn y statud. Mae'n bwysig bod unrhyw asesiad(au) a wneir o'r plentyn gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid neu asiantaethau eraill ar gyfer trosedd meddu ar gyllell yn parhau i roi sylw dyledus i weithdrefnau a strwythurau diogelu.

26. Rhaid i'r Heddlu a Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid gyfeirio at a dilyn y canllawiau Gweithlu Statudol i Ddiogelu Plant[7] sy'n nodi bod gan blant sy'n cael eu canfod fel troseddwyr, neu droseddwyr honedig, hawl i'r un diogelwch ac amddiffyniad ag unrhyw blentyn arall, a bod sylw dyledus yn cael ei roi i'w diogelwch a'u lles bob amser. Mae'r canllawiau hefyd yn amlinellu'r anghenion diogelu ar gyfer y rhai sy'n profi niwed alldeuluol gan gynnwys masnachu pobl[8], camfanteisio troseddol a thrais difrifol. Dylid ceisio cymorth ychwanegol i fynd i'r afael â'r pryderon hyn, er enghraifft, Gwarcheidwaid Masnachu Plant Annibynnol, lle bo modd. Mae cyngor a chanllawiau ar wahân ar weithdrefnau diogelu yng Nghymru hefyd ar gael.[9]

## Strwythurau atgyfeirio ac asesu cyflym a thrylwyr

27. Dylai ardaloedd lleol sefydlu a gwreiddio cytundeb gweithio ar y cyd sy'n nodi'n glir brosesau dargyfeirio amlasiantaethol, gan gynnwys nodi prosesau atgyfeirio, a rolau a chyfrifoldebau'r gweithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig[10].

28. Dylai ymyriadau fod ar waith cyn gynted â phosibl i wneud y mwyaf o'r 'foment hygyrch, addysgiadwy'. Ni ddylai'r cyfnod rhwng yr atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a dechrau'r gweithgaredd fod yn hirach na phedair wythnos. Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid lleol a'r heddlu adolygu eu prosesau a'u trefniadau gwaith yn rheolaidd i sicrhau bod plant sydd wedi cyflawni trosedd meddu ar gyllell yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt cyn gynted â phosibl. Gall hyn gynnwys blaenoriaethu achosion ar gyfer gwneud penderfyniadau lle bo'n briodol.

29. Yn dilyn y panel asesu a gwneud penderfyniadau llawn, dylai pob partner sicrhau bod cofnodion ar wahân ynghylch un unigolyn yn gyson - dylent gynnwys yr un wybodaeth a hanes cefndir y plentyn unigol sy'n cael ei asesu. Ni ddylai plentyn orfod rhoi'r un wybodaeth dro ar ôl tro i wahanol asiantaethau. Bydd hyn yn helpu i lywio penderfyniadau ynghylch pa ymyrraeth sy'n briodol i'r plentyn a darparu rhesymeg glir dros y penderfyniad, yn enwedig pan fydd Erlyniad Gohiriedig wedi'i asesu fel un mwy priodol na Rhybudd Amodol Ieuenctid neu gyhuddo'r plentyn.

---

[7] Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu plant 2023: canllawiau statudol

[8] Caethwasiaeth Fodern: canllawiau statudol ar gyfer Cymru a Lloegr

[9] Diogelu Cymru

[10] Canllawiau Ymarfer Dargyfeirio YEF

30. Dylid cynnal y broses hon ar gyfer pob achos o blentyn yn cael ei ganfod â chyllell yn ei feddiant heb reswm da nac awdurdod cyfreithlon [11],hyd yn oed os yw plentyn wedi bod yn hysbys i'r heddlu ac asiantaethau eraill o'r blaen.

31. Mae Byrddau Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn gyfrifol am arweinyddiaeth a goruchwyliaeth y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, gan gyfrannu at strategaethau amlasiantaeth a diogelu plant sy'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, er mwyn atal plant rhag troseddu ymhellach. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl i uwch gynrychiolwyr o bob partner perthnasol, yn enwedig yr heddlu, yr awdurdod lleol, iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg, fynychu byrddau rheoli yn gyson. Dylai byrddau rheoli weithredu gyda mandad clir i fonitro perfformiad yn erbyn canlyniadau y cytunwyd arnynt, gan ddefnyddio data cadarn a dangosyddion mesuradwy i asesu cynnydd wrth gyflawni atgyfeiriadau a chanlyniadau amserol ar gyfer ymyriadau troseddau meddu ar gyllell.

### Enghraifft Arfer Da[12]

| **Atgyfeiriadau amserol** |
|---|
| Mae un cynllun wedi strwythuro eu proses atgyfeirio i sicrhau nad yw unrhyw atgyfeiriadau'n cymryd mwy na phedair wythnos - mae'r rhan fwyaf yn cael eu datrys yn llawer cynt. Maent yn cynnal eu panel penderfyniadau unwaith yr wythnos.<br><br>Unwaith y gwneir penderfyniad, mae gan weithwyr y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid bum niwrnod gwaith i gysylltu â'r person ifanc a'u rhiant/gofalwyr.<br><br>Lle bo oedi wrth wneud penderfyniadau, eu nod yw na ddylai'r oedi arafu ymyriadau i atal troseddu pellach. O ganlyniad, nid yw oedi wrth wneud penderfyniadau yn fwy na thair wythnos neu dri phanel. Mae caniatáu proses gyflym o wneud penderfyniadau yn galluogi cyfiawnder cyflym i'r dioddefwr ac yn cadw uniondeb y cynllun.<br><br>Mae rhai cynlluniau wedi cynnwys haen arall o graffu: bydd aelod o staff yn gweithredu fel 'ceidwad porth' a bydd yn adolygu pob atgyfeiriad am addasrwydd. Mae'n bwysig bod y ceidwaid porth hyn yn cael eu grymuso nid yn unig i wrthod atgyfeiriadau a ystyrir yn rhy risg uchel, ond hefyd y rhai nad ydynt yn cyrraedd y trothwy. |

[11] Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988

[12] Canolfan Arloesi Cyfiawnder - Atgyfeiriadau Amserol

# Cam tri: Canlyniadau priodol

32. Ar ôl ystyried y ffactorau gwaethygol a lliniarol, yr amgylchiadau, a hanes y troseddu neu'r trais yn unol â'r Matrics Difrifoldeb Plant, efallai y byddai'n briodol cyhuddo plentyn o drosedd meddu ar gyllell. Nid yw'r canllawiau hyn yn newid y dull hwn. Pan fydd cyhuddiad yn cael ei ddilyn, dylid gwneud hynny drwy brosesau presennol.

33. Dylid ymateb i droseddu ailadroddus a chynyddol gydag ymateb cynyddol. Felly, ar gyfer troseddau meddu ar gyllell ailadroddus, mae'n debygol mai cyhuddiad fydd yr ymateb mwyaf priodol yn y rhan fwyaf o amgylchiadau.[13]

34. Os ceisir penderfyniad cyhuddo gan erlynydd, dylai'r heddlu lenwi Ffurflen Gwybodaeth am Blentyn a'i chyflwyno i Wasanaeth Erlyn y Goron. Mae hyn yn galluogi'r erlynydd i ystyried anghenion ac amgylchiadau penodol y plentyn, ac yn lleihau oedi lle mae angen i erlynwyr geisio rhagor o wybodaeth i gynorthwyo eu penderfyniad. Mae'r ffurflen yn tywys yr heddlu ynghylch y wybodaeth briodol sydd ei hangen arnynt, y dylid ei chasglu gan bartneriaid fel y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, gan dynnu ar drefniadau rhannu gwybodaeth lleol presennol i wneud eu hymholiadau.

### Penderfyniadau y Tu Allan i'r Llys

35. Gall rhai achosion o droseddau meddu ar gyllell fod yn briodol ar gyfer Datrysiad y Tu Allan i'r Llys. Dylai pob plentyn sy'n cyflawni trosedd meddu ar gyllell dderbyn ymyriadau wedi'u teilwra, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gyflym gan y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid.

36. Mae'r Llywodraeth o'r farn nad yw'r Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys canlynol yn briodol ar gyfer meddu ar gyllell, oherwydd nad ydynt yn cynnwys cynllun gorfodol:

37. **Rhybuddiad Ieuenctid (Canlyniad 2):** Nid yw'r Llywodraeth yn ystyried bod Rhybuddiadau Ieuenctid yn briodol ar gyfer troseddau meddu ar gyllell gan nad ydynt yn gwarantu y darperir ymyrraeth. Lle mae tystiolaeth neu risg o ymddygiad troseddol, dylid rhoi Rhybuddiad Amodol Ieuenctid neu Erlyniad Gohiriedig, lle bo'n briodol.

38. **Datrysiad Cymunedol (Canlyniad 8):** Canlyniad anstatudol nad yw'n gofyn am atgyfeiriad gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid na chynnal ymyrraeth. Dim ond ar gyfer troseddau lefel isel y dylid ystyried datrysiadau cymunedol. Nid yw'r

---

[13] Deddf Dedfrydu 2020

Llywodraeth yn ystyried bod datrysiad cymunedol yn briodol ar gyfer trosedd meddu ar gyllell.

39. ***Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys sy'n cynnig ymyrraeth a chefnogaeth orfodol i'r plentyn yw***:

40. **Rhybuddiad Amodol Ieuenctid (Canlyniad 2): Rhybuddiad ieuenctid gydag amodau adsefydlu, gwneud iawn a chosbol ynghlwm. Rhaid gallu cwblhau'r amodau o fewn 16 wythnos i ddyddiad y drosedd wreiddiol ar gyfer troseddau meddu ar gyllell.** Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys lle mae cyllell yn gysylltiedig yn arwain at Rybuddiad Amodol Ieuenctid. Os yw plentyn yn methu â chydymffurfio â'i amodau, dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid hysbysu'r heddlu. Dylai'r heddlu benderfynu, gan ystyried barn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, a ddylid erlyn am y drosedd wreiddiol. Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid egluro i'r plentyn y bydd diffyg cydymffurfio yn cael ei ymchwilio a bod modd gwneud penderfyniad i erlyn am y drosedd wreiddiol.

41. **Erlyniad Gohiriedig: Mae gweithgaredd dargyfeiriol, addysgol neu ymyrraeth, sy'n deillio o'r adroddiad trosedd, wedi'i gynnal ac nid yw er budd y cyhoedd i erlyn**. Canlyniad anstatudol na ddylid ei ddefnyddio ond ar ôl ystyried yr achos meddu ar gyllell unigol, oedran neu lefel aeddfedrwydd y plentyn yn ogystal ag ystyried y Matrics Difrifoldeb Plant ac ymgynghori â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Dylai'r canlyniad hwn fod ar gael a chael ei ystyried mewn achosion dethol lle nad yw'n briodol troseddoli plentyn am feddu ar gyllell ac mae wedi'i gynllunio ar gyfer plant lle asesir bod y risg y mae'r unigolyn yn ei chyflwyno iddo'i hun, eraill a diogelwch y cyhoedd yn isel. Gellid erlyn yr unigolyn am y drosedd wreiddiol os nad yw'n cwblhau'r gweithgaredd. Dylid ymgynghori â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wrth wneud penderfyniadau. Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid benderfynu ar yr ymyrraeth sy'n cael ei rhoi ar waith, fel y byddent yn ei wneud ar gyfer Rhybuddiad Amodol Ieuenctid.

42. **Camau gweithredu a gymerir gan gorff/asiantaeth arall (Canlyniad 20): Nid yw'r canlyniad hwn yn cynnwys cynllun gorfodol. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau prin, lle nad oes risg a aseswyd i ddiogelwch y cyhoedd a bernir y dylai asiantaeth arall fod yn gyfrifol am gefnogi'r plentyn yn unig, gall y canlyniad hwn fod yn briodol.** Bydd camau gweithredu pellach sy'n deillio o'r adroddiad trosedd yn cael eu cymryd gan gorff neu asiantaeth heblaw'r heddlu neu'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Dylid defnyddio'r canlyniad hwn i gau achos pan fyddai anghenion y plentyn yn cael eu diwallu orau gan asiantaeth nad yw'n asiantaeth cyfiawnder troseddol, er enghraifft Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc.

## Erlyniad Gohiriedig

43. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl i bob heddlu sicrhau bod Erlyniad Gohiriedig ar gael fel opsiwn i ymateb i droseddau meddu ar gyllyll gan blant dethol, lle bo'n briodol a lle nad yw er budd y cyhoedd i gyhuddo'r plentyn neu lle nad yw rhoi Rhybuddiad Amodol Ieuenctid yn addas.

44. Ni ddylai Erlyniad Gohiriedig ddisodli cyhuddo na defnyddio Rhybuddiadau Amodol Ieuenctid. Yn lle hynny, dylid ei ddefnyddio mewn achosion dethol i atal troseddoli plentyn yn ddiangen, ar ôl ystyried amgylchiadau unigol y plentyn a'r drosedd. Yn gyffredinol, ni ddylai plentyn dderbyn mwy nag un Erlyniad Gohiriedig am drosedd meddu ar gyllyll.

45. Lle nad yw'r heddlu'n defnyddio cynlluniau Erlyniad Gohiriedig yn ehangach ar hyn o bryd, dylid ei wneud ar gael ar gyfer troseddau meddu ar gyllyll gan blant a, lle caiff ei ddefnyddio, dylid atgyfeirio at y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Mater i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yw cyflawni'r cynllun gorfodol mewn ymateb i droseddau meddu ar gyllyll.

46. Gwneir newidiadau i gofnodi canlyniadau troseddau'r Swyddfa Gartref i sicrhau bod heddluoedd yn cael eu cydnabod am eu gwaith a bod camau cadarnhaol yn cael eu cymryd i ddargyfeirio ac atal y plentyn rhag cael ei dynnu i droseddoldeb pellach.

47. Er mwyn ymateb i droseddau meddu ar gyllyll gan blant drwy Erlyniad Gohiriedig, dylid atgyfeirio'r achos at y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, a dylai'r ymyrraeth gael ei chynnal gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac nid yr heddlu.

48. Dylid cymryd yr un dull trylwyr a seiliedig ar dystiolaeth o ddylunio, cyflwyno, monitro a dilyn ymyriadau ar gyfer ymyriadau a roddir ar waith drwy Erlyniad Gohiriedig ag ar gyfer y rhai a roddir ar waith drwy Rybuddiadau Amodol Ieuenctid, gan gynnwys hyd 12 wythnos yr ymyrraeth.

49. Bydd plant sy'n cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus yn gweld yr erlyniad yn cael ei ollwng, tra gallai'r rhai sy'n methu â chydymffurfio wynebu achos troseddol.

# Cam pedwar: Ymyriadau priodol

**50.** Er mwyn lleihau aildroseddu, mae'n hanfodol bod plant yn derbyn ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth dda, yn seiliedig ar asesiadau ac yn cael eu monitro'n agos yn gyflym. Mae hyn yn wir am bob ymyriad, gan gynnwys y rhai a roddir ar waith trwy gynlluniau Erlyniad Gohiriedig a'r rhai a roddir yn y llys. Dylai ymarferwyr wneud y canlynol i sicrhau bod ymyriadau'n effeithiol i'r plentyn unigol:

- **Ystyried cryfderau ac anghenion y plentyn.** Dylai ymyriadau adeiladu ar gryfderau'r plentyn a bod yn gymesur â'u hanghenion. Mae'n bwysig nodi anghenion heb eu diwallu'r plentyn a cheisio mynd i'r afael â nhw drwy unrhyw ymyrraeth a gynigir, drwy ddatblygu eu cryfderau. Yr arfer gorau yw cyd-gynhyrchu cynlluniau gyda'r plentyn.
- **Ystyried achosion ymddygiad troseddol.** Bydd hyn yn sicrhau y bydd yr ymyriadau'n gallu mynd i'r afael â'r ymddygiad troseddol a rhoi cyfle da i'r plentyn beidio ag aildroseddu.
- **Ystyried anghenion a barn y dioddefwr neu unrhyw ddioddefwr posibl.** Bydd hyn yn sicrhau bod lleisiau dioddefwyr yn bresennol wrth wneud penderfyniadau a'u bod yn rhan o achosion sydd wedi/a allai effeithio ar eu diogelwch.

51. Dylai Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid ddefnyddio Pecyn Cymorth Cronfa Gwaddol Ieuenctid [14] –sy'n seiliedig ar y storfa dystiolaeth fwyaf yn y byd ar drais. Dylai ymyriadau fod wedi'u profi'n dda i fod yn effeithiol wrth fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu, fel therapi ymddygiadol a mentora, yn hytrach nag ymyriadau nad oes tystiolaeth o effeithiolrwydd ar eu cyfer, fel addysg troseddau cyllyll neu gyrsiau ymwybyddiaeth. Lle nad oes tystiolaeth dda o ymyriadau a gynigir mewn ardal leol, dylai Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid weithio i ddod â'r ystod o ymyriadau sydd ar gael yn fwy unol â thystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio i leihau aildroseddu.

52. Gall ymyriadau gynnwys cael cefnogaeth i ail-ymgysylltu ag addysg a/neu fesurau diogelu i amddiffyn y plentyn. Lle mae Unedau Lleihau Trais ar waith, dylent weithio'n agos gyda Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid i sicrhau bod yr holl wasanaethau angenrheidiol yn cael eu comisiynu a'u defnyddio. Dylai Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid hefyd weithio'n agos gyda chyrff comisiynu a gwasanaethau priodol yn eu hardal i sicrhau bod yr atgyfeiriadau cywir yn bosibl ac yn cael eu gwneud a bod yr ystod lawn o gefnogaeth sydd ar gael i'r plentyn yn cael ei hystyried.

53. Lle mae ymarferwyr yn ystyried defnyddio cyrsiau addysg neu ymwybyddiaeth o droseddau cyllyll, dylid cymryd gofal arbennig i sicrhau mai dim ond gweithgareddau y mae tystiolaeth eu bod yn lleihau aildroseddu, fel hyfforddiant sgiliau cymdeithasol, sydd wedi'u cynnwys, ac nad ydynt yn cynnwys deunydd a

[14] Pecyn Cymorth Cronfa Gwaddol Ieuenctid

allai fod yn drawmatig a allai greu neu waethygu awydd i gario cyllell er diogelwch personol, fel delweddau o glwyfau.

54. Mae plant sydd mewn perygl o gael eu hatal a/neu eu gwahardd yn barhaol mewn mwy o berygl o gymryd rhan mewn trais difrifol a dylid eu cefnogi a dylent dderbyn ymyriadau effeithiol i'w helpu i aros mewn addysg, fel mentora. Mae'r ysgol yn ffactor amddiffynnol, ac mae'n bwysig bod plant yn cael eu cefnogi i fynychu addysg, boed yn ysgolion prif ffrwd neu'n Ddarpariaeth Amgen a llywio unrhyw darfu ar addysg a achosir gan feddu ar gyllell ei hun.

55. Mae'n hanfodol ar gyfer diogelwch y plentyn a'r cyhoedd bod plant yn cael eu cefnogi i gwblhau gweithgareddau dargyfeiriol. Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid fonitro ymgysylltiad â gweithgareddau yn weithredol. Mewn achosion o ddatgysylltu, dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wneud pob ymdrech i gefnogi ail-ymgysylltu. Pan fydd y plentyn yn parhau i fod wedi’i ddatgysylltu, dylid hysbysu'r heddlu. Yna dylai'r heddlu ystyried erlyn am y drosedd wreiddiol, gan ystyried barn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

### Cynnwys asiantaethau eraill

56. Gallai’r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ystyried ei bod yn briodol gweithio gyda'r plentyn ochr yn ochr ag asiantaethau eraill, fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc a chymorth gofal cymdeithasol sydd ar gael o fewn lleoliadau addysg. Mewn achosion o'r fath, dylid atgyfeirio'r plentyn at y rheini yn ogystal â chwblhau ymyriadau'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Dylid ystyried lleihau unrhyw ddyblygu ymyriadau gyda'r plentyn.

# Cam pump: Craffu

### Paneli gwneud penderfyniadau

57. Dylai paneli gwneud penderfyniadau, sy'n cynnwys rheolwr y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, yr heddlu, iechyd, Cymorth Cynnar, gofal cymdeithasol plant, addysg a gwasanaethau dioddefwyr, barhau i drafod plant cyhyd â'u bod yn cael ymyrraeth gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Dylai paneli ganolbwyntio ar effaith y datrysiad a ddewiswyd a llwyddiant yr ymyriadau a ddarparwyd hyd yn hyn, neu unrhyw ddiffyg cydymffurfio, a chytuno ar welliannau (neu uwchgyfeirio lle bo angen) i'w gwneud ar gyfer yr achosion parhaus hyn.

### Byrddau Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

58. Cyfrifoldeb Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yw monitro canlyniadau, cyfraddau cwblhau llwyddiannus a chyfraddau aildroseddu er mwyn cymryd golwg strategol ar effeithiolrwydd ac ansawdd ymyriadau sy'n cael eu darparu drwy Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys a datblygu a chyflawni gwelliannau lle bo angen. Dylai hyn gael ei lywio gan ystyriaethau a wneir gan y panel gwneud penderfyniadau ynghylch effeithiolrwydd ymyriadau.

59. Yn dilyn pob panel craffu a gwneud penderfyniadau, dylid darparu data a gwybodaeth reolaidd a chynhwysfawr i Fyrddau Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ynghylch defnydd ac effeithiolrwydd Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys a'r ymyriadau a gynigir. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n gweithio'n dda ac amlygu gwersi ehangach i'w hystyried.

### Paneli craffu

60. Dylai heddluoedd lleol a byrddau rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid sicrhau bod paneli craffu ar gyfer achosion meddu ar gyllyll yn eu lle bob chwarter o fewn pob ardal heddlu. Dylai paneli craffu adolygu'r canlyniadau y cytunwyd arnynt a nodi a monitro gwelliannau i arferion a phrosesau ar y sail hon.

61. Dylai paneli craffu gynnwys:
- Yr Heddlu
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid
- Prawf
- Ynadon
- Grŵp Cynghori Annibynnol
- Cynrychiolydd dioddefwyr

- Bydd cynnwys y gymuned yn galluogi lleisiau dioddefwyr i fod yn bresennol wrth wneud penderfyniadau ac yn caniatáu i'r gymuned fod yn rhan o achosion a allai effeithio ar eu diogelwch.

## Craffu gan yr Arolygiaeth

Er mwyn cynorthwyo craffu parhaus ar sut mae'r canllawiau hyn yn cael eu gweithredu, bydd Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi yn ymgorffori'r canllawiau hyn yn eu rheolau a'u canllawiau asesu achosion (CARaG). Yn amodol ar lefelau lleol o droseddau cyllyll, bydd yr arolygiaeth yn archwilio arferion lleol ar gyfer ymdrin ag achosion meddu ar gyllyll, yn unol â'u safonau, a'u rheolau a'u canllawiau cyhoeddedig a lle bo'n berthnasol byddant yn amlygu unrhyw faterion, gan gynnwys arferion effeithiol yn eu hadroddiadau cyhoeddedig yn y dyfodol.

# Esboniadau terminoleg

| | |
|---|---|
| Dull sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn | Dylai heddluoedd yng Nghymru a Lloegr hefyd fod yn ymwybodol o ddiffiniad Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn ym mis Gorffennaf 2023 [15], wedi'i ddatblygu gan yr NPCC, i ddarparu eglurder pellach a sicrhau dealltwriaeth gyffredin. |
| Plentyn neu blant | Rydym yn diffinio plentyn fel unrhyw un nad yw wedi cyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed eto. Mae hyn yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a deddfwriaeth sifil yng Nghymru a Lloegr. Nid yw'r ffaith bod plentyn wedi cyrraedd 16 oed, yn byw'n annibynnol neu mewn addysg bellach, yn aelod o'r lluoedd arfog, yn yr ysbyty neu yn y ddalfa mewn sefydliad diogel, yn newid ei statws na'i hawliau i wasanaethau neu amddiffyniad. Oedran cyfrifoldeb troseddol yng Nghymru a Lloegr yw 10 oed. |
| Erlyniad Gohiriedig | Datrysiad anstatudol, lle mae gan yr heddlu'r opsiwn o ohirio erlyniad nes bod gweithgaredd dargyfeiriol yn cael ei wneud. |
| Troseddu Cyllyll | Mae troseddu cyllyll, fel y'u diffinnir gan y Coleg Plismona [16],yn ymwneud yn fras â dau fath o ymddygiad. Mae'r cyntaf yn ymwneud â phobl yn berchen ar gyllyll neu'n meddu arnynt pan fo gwneud hynny'n anghyfreithlon. Gall hyn fod oherwydd bod eu perchnogaeth wedi'i gwahardd yn benodol, megis rhai arfau ymosodol (de facto neu 'wedi'u gwneud'), neu oherwydd eu bod yn anghyfreithlon mewn rhai cyd-destunau, yn bennaf yn cael eu meddu yn gyhoeddus heb reswm da. Mae'r ail ymddygiad yn ymwneud â defnyddio cyllell wrth gyflawni 'trosedd sy'n cynnwys cyllell' arall. Yn nodweddiadol, mae hyn yn ymwneud â thrais neu fygythiadau yn erbyn y person, lladrad, byrgleriaeth neu ddifrod troseddol. |

[15] Strategaeth Plismona Plant a Phobl Ifanc2024 - 2027

[16] Diffinio troseddu cyllyll | Coleg Plismona

| | |
|---|---|
| Gwrthrychau a gwmpesir yn y canllawiau | Mae'n drosedd, o dan adran 139 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (CJA)[17], bod ym meddiant gwrthrych llafnog mewn man cyhoeddus neu, o dan adran 139A o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol, ar safle ysgol neu addysg bellach heb reswm da nac awdurdod cyfreithlon. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw eitem sydd â llafn neu flaen ac eithrio cyllell boced plygadwy nad yw'n cloi lle nad yw ymyl torri ei llafn yn fwy na 3 modfedd |
| Datrysiad Allan o'r Llys | Yn y canllawiau hyn, byddwn yn cyfeirio at Benderfyniadau y Tu Allan i'r Llys fel Datrysiadau Allan o'r Llys. Datrysiad y Tu Allan i'r Llys yw'r term a ddefnyddir mewn deddfwriaeth ar gyfer y datrysiadau sy'n gallu datrys troseddau lefel isel heb fynd i'r llys. Gellir defnyddio Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys yn gyfnewidiol â Phenderfyniadau y Tu Allan i'r Llys. |
| Gweithdrefnau Diogelu Cymru | Mae heddluoedd Cymru a Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid yn defnyddio pecyn cymorth Trawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (TRACE), sy'n nodi sut olwg sydd ar ddull sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn ymarferol, gan gynnwys ystyried niwroamrywiaeth yng Nghymru. |
| Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnwys grŵp o weithwyr proffesiynol o wahanol asiantaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd i atal plant a phobl ifanc rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf. Maent yn cefnogi unigolion i symud i ffwrdd o ymddygiad troseddol. Maent yn gweithio gyda phlant rhwng 10 a 17 oed. |

[17] Gorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) 1988 (legislation.gov.uk)